

## Mynediad at Feddygon

Bydd yn rhaid trefnu apwyntiad nawr ar gyfer pob ymgynghoriad. Gellir trefnu apwyntiadau dros y ffôn ar 01982 552207 Opsiwn 1.

Anogir cleifion i weld y Meddyg Teulu "sy'n eu trin nhw" pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl er mwyn sicrhau parhad gofal meddygol. Os nad yw'ch meddyg teulu ar gael fe gewch gynnig apwyntiad gydag un o'r meddygon eraill sydd yn y practis ar y pryd.

**Os oes angen apwyntiad brys arnoch chi, ffoniwch 01982 552207.**

Gellir gwneud apwyntiadau arferol hyd at bythefnos ymlaen llaw. Os na fedrwyd chi gadw apwyntiad, rhowch wybod i ni mor fuan â phosibl.

Os ydych chi'n ansicr a oes angen apwyntiad arnoch chi ac a ydyw'n un brys, gallwch drafod hyn yn gyfrinachol â'r derbynnydd fel eich bod yn cael eich tywys trwy'r system. 01982 552207 Opsiwn 1.

Gellir trefnu apwyntiadau arferol trwy wasanaeth Fy Iechyd Ar-lein.

Mae'n bosibl y byddwn ni'n defnyddio gwasanaeth negeseuon testun i gysylltu â chi, felly gwnewch yn siŵr fod eich rhif ffôn symudol presennol chi gennyn ni.

Mae cleifion hefyd yn gallu cael gwybodaeth weinyddol ar-lein. Ewch i'n gwefan [www.builthsurgery.co.uk](http://www.builthsurgery.co.uk).

## Amseroedd y Feddygfa

Mae'r feddygfa ar agor o 8.30am i 6.00pm.

Yn Llanfair-ym-muallt, mae apwyntiadau ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn y bore a'r prynhawn. **Nid** yw'r meddygfydd ar agor ar y penwythnos a Gwyliau Banc.

## Cyfrinachedd

Mae'r Practis yn darparu gwasanaeth cyfrinachol i bob un o'n cleifion, gan gynnwys pobl ifanc dan 16 oed.

Er mwyn rhoi gofal iechyd o safon uchel ichi, mae'n bosibl y bydd angen i'ch meddyg rannu gwybodaeth amdano chi â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ac, o bryd i'w gilydd, â phobl leyg. Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â hyn, yna cysylltwch â Rheolwr y Practis.

## Bwrdd Iechyd Lleol

Gellir cael manylion am wasanaethau meddygol sylfaenol yn yr ardal oddi wrth Carol Shilabeer, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Y Pencadlys, Tŷ Glasbury, Ysbyty Bronllys, Bronllys, Powys, LD3 0LS. Ffôn: 01874 711661

## Hawliau a Chyfrifoldebau Cleifion

Nodir y rhain mewn mwy o fanylder yn Siarter Cleifion ein Practis sydd ar gael ar gais.

Fel claf mae gennych chi'r hawl:

i gael cynnig archwiliad iechyd pan fyddwch chi'n ymuno â'r feddygfa am y tro cyntaf

i gael y feddyginiaeth a'r cyffuriau priodol wedi'u rhagnodi ichi i gael eich cyfeirio at ymgynghorydd sy'n dderbyniol ichi pan fo'r meddyg yn barnu bod angen hynny, ac i gael eich cyfeirio am ail farn os ydych chi a'r meddyg yn cytuno bod hyn yn ddymunadwy

Fel claf mae gennych chi gyfrifoldeb:

i ddefnyddio'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu mewn ffordd gyfrifol

i gadw apwyntiadau, neu roi rhybudd digonol os ydych chi am ganslo

Ar gyfer llawer o broblemau, mae'n bosibl bod yr ateb yn rhannol yn nwylo'r claf, e.e. rhoi'r gorau i ysmegu, newid diet, colli pwysau. Mae'n bwysig eich bod chi'n cyflawni'r rhan hon o'ch triniaeth os ydy hyn yn cael ei gynghori.

Rydyn ni'n gofyn i'r staff eich trin chi'n gwrtais ac yn gyfeillgar, a gofynnwn i chithau drin bob un o'n staff yn yr un modd.

## Cleifion Difriol neu Dreisgar

Mae gan feddygon hawl i ofyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol dynnu cleifion oddi ar restr y practis os ydyn nhw'n dreisgar mewn unrhyw ffordd tuag at feddygon, staff neu unrhyw bobl eraill ar safle'r practis. Rhoddir gwybod i'r heddlu am bob digwyddiad.

## Sylwadau/Pryderon

Mae'r Practis yn gweithredu gweithdrefn bryderon fewnol ffurfiol. Os oes gennych chi bryder neu os hoffech chi wneud sylw, ysgrifennwch at: Rheolwr y Practis, Y Feddygfa, Glandwr Parc, Llanfair-ym-muallt, Powys, LD2 3DZ

Mae'r un system yn caniatáu i feddygon a staff gofnodi pryderon yn erbyn cleifion.

Gellir gofyn am gyngor yn y dderbynfa os ydy cleifion yn ansicr ynglŷn ag unrhyw weithdrefnau sydd heb eu rhestru yn y daflen wybodaeth hon.

## Rhifau Ffôn a Gwefannau

Meddygfa Llanfair-ym-muallt 01982 552207  
[www.builthsurgery.co.uk](http://www.builthsurgery.co.uk)

Llinell Gymorth Galw Iechyd Cymru 0845 4647  
[www.nhsdirect.wales.nhs.uk](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk)

Mae'n bosibl y bydd galwadau ffôn yn cael eu recordio at ddibenion hyfforddi.

# Practis Meddygol Llanfair-ym-muallt a Llanwrtyd

[www.builthsurgery.co.uk](http://www.builthsurgery.co.uk)

## Taflen y Practis - Llanfair-ym-muallt

Diben y daflen hon ydy disgrifio'r gwasanaethau y mae'r Practis yn eu darparu i gleifion.



Ar gyfer problemau meddygol yn ystod oriau agor y Feddygfa ffoniwch:  
**Llanfair-ym-muallt 01982 552207**

Os ydy'r Feddygfa wedi cau ffoniwch:  
**Shropdoc ar 111**

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd darllen y daflen hon, yna gofynnwch am gopi print bras

## Llanfair-ym-muallt

Y Feddygfa, Glandwr Parc, Llanfair-ym-muallt, Powys. LD2 3DZ  
Ffôn: 01982 552207 Ffacs: 01982 553826

## Llanwrtyd

Y Ganolfan Iechyd, Heol Ffos, Llanwrtyd, Powys. LD5 4RG

Mae'n bosibl y bydd galwadau ffôn yn cael eu recordio at ddibenion hyfforddi.



## Y Partneriaid

Dr. R. Hegedus	MB BS, MRCP, DipClinPharm, BPharm (2004) Llundain
Dr. T. Arthur	MBChB, DRCOG, MRCP (2001) Aberdeen
Dr. A. Phillips	MB BS, BSc (Anrh), PhD, MRCP (2004) Llundain
Dr. J. Jones	MBChB, MRCP (2008) Caerdydd, DFRSH
Dr. S. Bennett	MBChB, DFRSH, DRCOG, MRCP, PgDipDerm
Dr A. Goodall	MBChB, MRCP

## Staff Clinigol sy'n darparu gwasanaethau i gleifion yn uniongyrchol

<b>Nyrs Practis</b>	Sr G Gorton SRN Sr L Bradshaw SRN
<b>Cynorthwyr Gofal Iechyd</b>	Miss S Jones HCA Mrs J Sullivan HCA Mrs S Price HCA

## Staff Gweinyddol


<b>Rheolwr y Practis</b>	Mrs Jane Stephens
<b>Rheolwr y Dderbynfya</b>	Miss Sophie Evans

## Gweinyddiaeth a'r Dderbynfya

Mrs Sarah Price, Mrs Jacqui Sullivan, Miss Jess Bishop, Miss Rhael Carter, Miss Annie Hale, Miss Olivia Hancock, Miss Jay Shah, Ms Dionne Thomas, Mrs Katie Bufton, Mrs Emily Blackwell a Mrs Cath Davies

## Ardal y Practis

Mae map o Ardal y Practis ar gael ar gais.



## Mae ardal y practis yn cynnwys:

Llanfair-ym-muallt	Llanwrtyd
Y Bontnewydd ar Wy	Hawau
Hundred House (H)	Beulah
Garth	Aberedw
Erwyd	Bochrwyd (B)
Castell-paen	

## Cofrestru

Mae pawb sy'n byw o fewn ardal y practis yn gymwys i gofrestru â'r feddygfa hon. Rhaid llenwi ffurflen sydd i'w cael o'r dderbynfya. Pan fydd cleifion yn cofrestru â'r practis fe fyddan nhw'n cael meddyg "sy'n eu trin nhw". Anogir cleifion i weld y meddyg teulu "sy'n eu trin nhw" pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl er mwyn sicrhau parhad gofal meddygol.

## Gwasanaethau

Mae meddygon yn y Practis yn darparu gwasanaethau meddygol hanfodol. Mae hyn yn cynnwys rheolaeth gyffredinol o gleifion sy'n sâl, y rheini sydd â chlefydau cronig a'r rheini sy'n derfynol wael.

Mae'r meddygon a'r staff nyrsio hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a chlinigau ychwanegol.

- Clinigau Imiwneiddio Plant, Datblygiad Plant a Babanod Iach
- Clinigau Iechyd yn cynnwys Strôc, Clefyd y Galon, Clefyd yr Arennau, Diabetes, Epilepsi, Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl
- Clinigau Asthma a Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint
- Seitoleg Serfigol (proffion sgrinio serfigol)
- Mân Lawdriniaeth
- Clinig INR (Cleifion ar Warffarin)
- Gwasanaethau Atal Cenhedlu

Mae'r clinigau trwy drefniant yn unig.

Staff nyrsio hyfforddedig benywaidd sy'n darparu'r gwasanaethau seitoleg serfigol. I drefnu apwyntiad gyda Nyrs y Practis ffoniwch y Feddygfa yn Llanfair-ym-muallt.

Mae Cyngor Rhoi'r Gorau i Ysmygu ar gael o:

Dim Smygu Cymru	0800 085 2219
Fferyllfa Boots Llanfair-ym-muallt	01982 552209
Lakeside Pharmacy, Llandrindod	01597 822174

## Presgripsiynau Amlroddadwy (Taflen Gynghori Ar Gael)

Gellir gwneud cais am bresgripsiynau amlroddadwy drosoch eich hun neu gall rhywun wneud cais ar eich rhan naill ai yn y cnawd, trwy ffacs, trwy'r post neu drwy Fy Iechyd Ar-lein ar gyfer gwasanaeth casglu'r fferyllfa. Rhaid anfon amlen â stamp a chyfeiriad arni gyda chais trwy'r post.

Mae'n well defnyddio'r slip ar ochr dde'r presgripsiwn i wneud cais yn bersonol neu drwy'r post.

Rhaid derbyn pob gais am bresgripsiynau amlroddadwy yn y feddygfa erbyn 1pm. Yna, bydd angen cyfnod o 3 diwrnod gwaith cyn eu bod yn barod i'w casglu.

## Ymweliadau Cartref

Er ein bod ni'n annog ein cleifion i ddod i'r feddygfa, lle mae'r cyfarpar a'r cyfleusterau priodol ar gael, rydyn ni'n sylweddoli nad ydy hyn bob amser yn bosibl. Yn hyn o beth, os oes angen ymweliad cartref amoch, gallwch chi ein helpu ni drwy ffonio'r dderbynfya cyn 10.30am. Dim ond os ydych chi'n gaeth i'r tŷ neu'n rhy wael i ymweld â'r practis y gallwch chi wneud cais am ymweliad cartref. Bydd y meddyg teulu'n ymweld â'r cartref dim ond os yw o'r farn bod eich cyflwr meddygol yn galw am hynny, a'r meddyg fydd hefyd yn penderfynu faint o frys sydd i'r ymweliad. Cofiwch hyn os gwelwch yn dda a byddwch yn barod i roi manylion addas i sicrhau bod y meddyg yn gallu trefnu ymweliadau cartref.

## Mynediad i'r Feddygfa

Mae ardaloedd cyhoeddus y ddwy feddygfa yn rhai un llawr ac yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae toiledau gyda mynediad ar gyfer yr anabl ar gael. Os oes unrhyw broblemau penodol gennych chi, fe fydd staff y dderbynfya'n hapus i'ch helpu.

## Ffioedd

Mae yna rai gwasanaethau nad ydyn nhw'n dod dan y GIG a bydd ffi yn cael ei chodi. Er enghraifft:

- Adroddiadau ac asesiadau meddygol yswiriant damweiniau a salwch
  - Tystysgrifau (salwch)
  - Asesiadau meddygol gyrrwyr
  - Tystysgrifau yswiriant gwyliau
  - Cyngor o'r clinig teithio
  - Rhai brechiadau ar gyfer teithio dramor
  - Yswiriant iechyd preifat
- Mae'r prisiau presennol i'w gweld yn yr ystafell aros ac ar y wefan.

## Hyfforddiant Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

Mae'r practis yn cyfrannu at hyfforddiant gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a myfyrwyr meddygol. Fe fyddan nhw'n bresennol mewn ymgynghoriadau o bryd i'w gilydd. Dim ond â'ch caniatâd y bydd myfyrwyr meddygol yn cael bod yn bresennol.

## Mân Anafiadau

Darperir gwasanaeth mân anafiadau ar gyfer cleifion mewn ysbytai cyfagos yn Llandrindod ac Aberhonddu.

**Os oes Problemau Meddygol ar ôl 6.00pm bydd eich galwad yn cael ei hailgyfeirio i Shropdoc Ffôn: 111**